Chwefror 2026

# Llywio dyfodol cyflogau gweithwyr gofal yng Nghymru

# Taflen wybodaeth am y grwpiau ffocws i gyflogwyr

### Diolch am helpu gyda'r gwaith ymchwil pwysig hwn!

Mae'r daflen wybodaeth hon yn dweud mwy wrthych am yr ymchwil ac am sut y bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio. Felly, rydym yn argymell eich bod yn darllen y daflen wybodaeth hon cyn i chi benderfynu a ydych am gymryd rhan yn yr ymchwil ai peidio. Gallwch fynegi diddordeb mewn cymryd rhan drwy'r ddolen ar ddiwedd y ddogfen.

### Ynglŷn â'r ymchwil

Ariennir yr ymchwil gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gan weithio gyda Fforwm Cyflog Teg Gofal Cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymrwymo i greu gweithlu gofal cymdeithasol cryf, a werthfawrogir a nod yr ymchwil yw datblygu gwell dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau. Er enghraifft, sut mae cyflog yn amrywio yn ôl rôl, profiad, cymwysterau, a lleoliad gofal? Sut mae'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr a boddhad mewn swydd?

Er mwyn helpu i ateb y cwestiynau hyn, rydym yn gofyn i gyflogwyr gofal gymryd rhan mewn grŵp ffocws ar-lein i archwilio'r materion hyn yn fanylach.

Rydym hefyd yn siarad â gweithwyr gofal ac yn edrych ar ddata ystadegol ac ymchwil am gyflogau ym maes gofal cymdeithasol. Ar ddiwedd yr ymchwil, byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru, a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn neu haf 2026.

### Beth yw'r fantais o gymryd rhan?

Bydd yr ymchwil yn rhoi gwell dealltwriaeth i Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chyflog, recriwtio a chadw gweithwyr a bydd hyn yn cael ei fwydo i drafodaethau ynghylch polisi a chyllid cenedlaethol. Bydd yn fodd o sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n seiliedig ar realiti bywyd i gyflogwyr a gweithwyr gofal.

### A fydd cyllid i weithredu unrhyw argymhellion o'r ymchwil?

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch cyllid sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r gwaith ymchwil hwn. Pwrpas yr ymchwil yw datblygu sylfaen dystiolaeth fanwl a chyfredol am gyfraddau cyflog a heriau'r gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y dystiolaeth hon yn helpu i

lywio trafodaethau ynghylch polisi yn y dyfodol yn uniongyrchol drwy'r Fforwm Gwaith Teg, ond nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw raglen ariannu wedi'i chadarnhau.

Mae ansicrwydd ehangach hefyd yn sgil yr etholiadau sydd ar y gorwel yng Nghymru. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol gwneud penderfyniadau a allai fod yn rhan o gylch gorchwyl Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Ymrwymiad Gofal Cymdeithasol Cymru yw sicrhau bod y canfyddiadau'n gadarn, wedi'u cyflwyno'n glir, ac ar gael i lywio pa bynnag weinyddiaeth sydd ar waith.

## Ynglŷn â'r grwpiau ffocws

Bydd y grŵp ffocws yn cael ei hwyluso gan ymchwilydd IPC. Dim ond darparwyr gofal sy'n cael mynychu (h.y. neb o Lywodraeth Cymru ac ati). Bydd y pynciau i'w trafod yn cynnwys:

- Beth sy'n annog pobl i ddod i weithio i chi a beth sy'n eu hatal?
- Pa mor bwysig yw cyflog yn hyn o'i gymharu â ffactorau eraill?
- Pam ydych chi'n colli staff a beth sy'n eu hannog i aros?
- Pa gamau gweithredu gan Gofal Cymdeithasol Cymru a/neu'r Llywodraeth (lleol/Cymru/y DU) fyddai'n fwyaf defnyddiol yn y dyfodol?

Cynhelir grwpiau ffocws yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y grwpiau ffocws Saesneg yn cael eu hanelu at grŵp gwahanol o gyflogwyr. Gallwch archebu lle yn y grŵp ffocws rydych chi'n teimlo sydd fwyaf addas i'ch sefydliad.

Ni chaniateir i blatfformau Deallusrwydd Artiffisial (fel Otter) ymuno â'r grwpiau ffocws.

## A fydd y grwpiau ffocws yn gyfrinachol?

Bydd pob grŵp ffocws yn cynnwys hyd at 20 o bobl o wahanol sefydliadau ac, er y byddem yn gofyn am ymagwedd broffesiynol at y sgyrsiau hyn, ni allwn warantu cyfrinachedd rhwng cyfranogwyr.

Fodd bynnag, byddem yn eich sicrhau na fydd y grwpiau ffocws yn cynnwys manylion a allai fod yn sensitif, er enghraifft cyfraddau cyflog gwirioneddol neu wybodaeth am sefyllfa ariannol eich sefydliad. Gallwch benderfynu rhannu cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch yn ystod y drafodaeth.

Byddwn yn recordio'r grwpiau ffocws. Bydd hyn yn rhoi cofnod cywir o'r drafodaeth i ni, ac yn golygu y gallwn ganolbwyntio ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud, yn hytrach nag ar gymryd nodiadau. Ni fydd y recordiad yn cael ei rannu ag unrhyw un, a bydd yn cael ei ddileu unwaith y byddwn wedi ysgrifennu ein nodiadau. Rydym yn cydnabod y gallai rhai pobl fod â rheswm da dros beidio â bod eisiau i'w camera fod ymlaen yn ystod y grŵp ffocws. Fodd bynnag, lle bynnag y bo hynny’n bosibl, byddem yn annog cyfranogwyr i gadw eu camera ymlaen. Mae hyn yn arwain at drafodaeth well.

Er mwyn diogelu cyfrinachedd y grŵp ffocws, byddwn yn gofyn i'r cyfranogwyr beidio â chymryd unrhyw nodiadau yn ystod y drafodaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer cymryd nodiadau AI. Os hoffech grynodeb o'r drafodaeth, rhowch wybod i ni a gallwn rannu crynodeb dienw ar ôl y grŵp ffocws.

Byddwn yn adrodd ar grwpiau ffocws gyda'i gilydd, ac ni fydd ein hadroddiad yn nodi unigolion neu sefydliadau. Efallai y byddwn am ddyfynnu rhywbeth rydych chi'n ei ddweud yn ystod y drafodaeth air wrth air yn yr adroddiad terfynol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn ddienw bob amser. Fodd bynnag, mae risg fach bob amser y gallai rhywun a fynychodd yr un grŵp ffocws allu eich adnabod yn yr adroddiad terfynol. Os byddai'n well gennych i'ch geiriau beidio â chael eu dyfynnu yn yr adroddiad terfynol, gallwch roi gwybod i ni.

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl, os ydych chi'n codi pryder diogelu mewn grŵp ffocws, neu'n gwneud honiadau o weithgaredd anghyfreithlon, byddai angen i IPC riportio hyn i'r awdurdodau perthnasol. Byddem bob amser yn trafod hyn gyda chi yn gyntaf.

## Sut byddwch chi'n diogelu data personol?

Byddwn yn storio'r holl wybodaeth ar system ddiogel y Brifysgol a dim ond yr ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect fydd yn gallu cael mynediad ati.

Ar ôl i ni ysgrifennu'r adroddiad, byddwn yn dileu'r holl wybodaeth bersonol, gan gynnwys y nodiadau o'n sgwrs, yn ogystal â'ch rhif ffôn a'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennym i gysylltu â chi i drefnu'r grŵp ffocws.

Os hoffech wybod mwy am sut rydym ni’n defnyddio, yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

## Mynegi diddordeb

**Os oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad â ni, cofrestrwch drwy'r ddolen hon.**

## Sut alla i gysylltu â thîm y prosiect?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Llinos Edwards, Ymgynghorydd Cyswllt yn IPC, trwy ebostio llinosedwards@brookes.ac.uk.

## Diolch!

# Shaping the future of care worker pay in Wales

# Information sheet about focus groups for employers

## Thank you for helping with this important research!

This information sheet tells you more about the research and about how the information you give us will be used. We therefore recommend that you read this information sheet before you decide whether to take part or not in the research. You can express an interest in taking part via the link at the end of the document.

## About the research

The research is funded by Social Care Wales, working with the Social Care Fair Pay Forum.

Social Care Wales is committed to building a strong, valued social care workforce and the aim of the research is to develop a better understanding of issues related to pay. For example, how does pay vary by role, experience, qualifications, and care setting? How does it impact recruitment, retention, and job satisfaction?

To help answer these questions, we are asking care employers take part in an online focus group to explore these issues more in depth.

We are also talking to care workers and looking at statistical data and research about pay in social care. At the end of the research, we will write a report for Social Care Wales, which we expect will be published in spring or summer of 2026.

## What is the benefit of taking part?

The research will provide Social Care Wales with a clearer view on issues related to pay, recruitment and retention and this will be fed into national policy and funding discussions. It will enable decisions to be made based on the reality of life for care employers and workers.

## Will there be funding to implement any recommendations from the research?

At this stage, no decisions have been made about funding linked to the outcomes of this research. The purpose of this engagement is to build a detailed and up-to-date evidence base about pay rates and workforce challenges across the social care sector in Wales. This evidence will help directly inform future policy discussions through the Fair Work Forum, but it is not connected to any confirmed funding programme.

There is also wider uncertainty due to the upcoming elections in Wales. As a result, it would not be appropriate to pre-empt decisions that may fall to a future Welsh

Government. Social Care Wales's commitment is to ensure the findings are robust, clearly presented, and available to inform whichever administration is in place.

## About the focus groups

The focus group will be facilitated by an IPC researcher. Only care providers can attend (i.e. nobody from the Welsh Government etc.). Topics for discussion will include:

- What encourages people to come and work for you and what discourages them?
- How important is pay in this compared to other factors?
- Why do you lose staff and what encourages them to stay?
- What actions from SCW and/or Government (local/Wales/UK) would be most helpful in the future?

Focus groups will be held in Welsh or English. The English focus groups will each be aimed at a different group of employers. You can book a place at the focus group which you feel is the best fit for your organisation.

AI platforms (such as Otter) will not be permitted to join the focus groups.

## Will focus groups be confidential?

Each focus group will include up to 20 people from different organisations and, while we would ask for a professional approach to these conversations, we cannot guarantee confidentiality between participants.

We would, however, reassure you that the focus groups won't include details that could be sensitive, for example actual pay rates or information about the financial situation of your organisation. You can decide to share as much or as little as you like during the discussion.

We will record the focus groups. This is to provide us with an accurate record of the discussion and to allow us to concentrate on what you are saying, rather than on taking notes. The recording will not be shared with anyone, and it will be deleted once we have written up our notes. We recognise that some people may have a good reason for not wanting their camera to be on during the focus group. However, wherever possible, we would encourage participants to keep their camera on. This leads to a better discussion.

To protect the confidentiality of the focus group, we will ask participants not to take any notes during the discussion. This includes the use of AI notetaking tools. If you would like a summary of the discussion, please let us know and we can share an anonymised summary after the focus group.

Focus groups will be reported collectively, and our report won't identify individuals or organisations. We might want to quote something you say during the discussion word by word in the final report. This will always be done anonymously. However, there is always a small risk that someone who attended the same focus group might be able to identify you in the final report. If you would prefer your words not to be quoted in the final report, you can let us know.

As you would expect, if you raised a safeguarding concern in a focus group, or made allegations of unlawful activity, IPC would need to report this to the relevant authorities. We would always discuss this with you first.

### How do you protect personal data?

We will store all information on a secure University-system and only the researchers working on the project will be able to access this.

Once we have written the report, we will delete all personal information, including the notes from our conversation, as well as your phone number and email address we used to contact you to arrange the focus.

If you would like to know more about how we use, store, and process your personal information, please see our Privacy Policy.

### Expressing an interest

**If you are interested in taking part in a focus group, please register via this link.**

### How can I contact the project team?

If you have any questions, please do not hesitate to contact Peter Cheer, Associate Consultant at IPC, via pcheer@brookes.ac.uk.

### Thank you!